100 MLYNEDD O DDATGYSYLLTIAD

LLUOSOGAETH DDINESIG YNG NGHYMRU, YN Y GORFFENNOL A'R DYFODOL



Wales Humanists
Dyneiddwyr Cymru

Mae Dyneiddwyr Cymru yn rhan o Humanists UK. Ein nod yw cael byd goddefgar lle mai meddwl rhesymegol a charedigrwydd sydd flaenaf. Rydym yn gweithio i gynorthwyo newid a fydd yn parhau ar gyfer cymdeithas well, gan hyrwyddo syniadau ar gyfer yr un bywyd sydd gennym. Mae ein gwaith yn helpu pobl i fod yn hapusach ac yn fwy bodlon, a thrwy ddod â phobl anghrefyddol at ei gilydd rydym yn eu helpu i ddatblygu eu safbwyntiau eu hunain a dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas. Cawsom ein sefydlu ym 1896, ac mae ein 100,000 o aelodau a chefnogwyr yn ymddiried ynom i hyrwyddo dyneiddiaeth. Trwy ein seremonïau, ein gofal bugeiliol, ein gwasanaethau addysg, a'n gwaith ymgyrchu, rydym yn hyrwyddo meddwl rhydd a rhyddid i ddewis fel y gall pawb fyw mewn cymdeithas deg a chyfartal.

Wales Humanists
Dyneiddwyr Cymru

CYFLWYNIAD

ETIFEDDIAETH FALCH O GYNHWYSIANT A LLUOSOGAETH

100 mlynedd ar ôl iddi ddod i rym, mae'r adroddiad hwn yn archwilio effaith bellgyrhaeddol Deddf yr Eglwys yng Nghymru 1914, a ddatgysylltodd Eglwys Loegr yng Nghymru ar 31 Mawrth 1920, ar gymdeithas a bywyd cyhoeddus Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried hanes Cymru yn dilyn y Ddeddf, ac yn ystyried diwylliant gwleidyddol unigryw, ac enghreifftiol i raddau helaeth, y Gymru fodern, gan gynnwys y llwyddiannau sy'n deillio o weinyddiaeth ddatganoledig a sefydlwyd ar sail seciwlar. Mae hefyd yn awgrymu ffyrdd eraill y gallai Cymru adeiladu ar etifeddiaeth falch meddwl annibynnol a lluosogaeth i sicrhau bod ei holl drigolion yn cael eu trin gyda'r un urddas, beth bynnag fo'u crefydd neu gred.

Mae hanes y Ddeddf ei hun yr un mor ddiddorol â'r effaith a gafodd. Dechreuodd y galw am Ddeddf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oherwydd annhegwch y ffaith bod y rhai nad oeddent yn Anglicaniaid yn talu degymau i gynnal Eglwys Loegr, niferoedd cynyddol o anghydffurfwyr, a'r twf o synnwyr o genedligrwydd Cymru.

Roedd y ddeddf arfaethedig yn boblogaidd yng Nghymru ac ymhlith ASau yn Nhŷ'r Cyffredin ond fe'i gwrthwynebwyd gan esgobion a cheidwadwyr cymdeithasol yn Nhŷ'r Arglwyddi, gan eu bod yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o golli eu dylanwad crefyddol a gwleidyddol. Yn y pen draw, bu'n rhaid i Dŷ'r Cyffredin ddefnyddio Deddf Senedd 1911 i orfodi'r Arglwyddi i gytuno yn erbyn eu hewyllys a phasiwyd y Ddeddf ym 1914. Cafodd ei gweithrediad ei oedi tan 1920 oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf. Datgysylltwyd Eglwys Loegr gan y Ddeddf, gan greu'r Eglwys yng Nghymru, a oedd, yn amlwg ac am y tro cyntaf, ar wahân i'r wladwriaeth.

Fel y byddwn yn ei archwilio, rhoddodd y Ddeddf genedl Cymru ar drywydd seciwlar, gan achosi cenfigen ymhlith unigolion eraill o blaid diwygio a oedd yn byw mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae'r Ddeddf wedi cael effaith ddwys ar gymeriad gwleidyddiaeth Cymru wrth iddi ddatblygu ac esblygu ers ei phasio.

Yn wahanol i Senedd y DU, nid oes gan gyfarfodydd Senedd Cymru weddïau Anglicanaidd yn rhan o'i thrafodion. Ac ers datganoli, mae Cymru wedi mabwysiadu dulliau seciwlar cryf o lywodraethu ac mewn meysydd fel polisi gofal iechyd. Mae'r ddeddf rhoi organau arloesol a ddaeth i rym yn 2015 yn un o sawl enghraifft lle mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd yn y DU yn y blynyddoedd diwethaf. Yn yr enghraifft honno, llwyddodd Llywodraeth Cymru i ystyried safbwyntiau cymunedau crefyddol amrywiol gan lunio trywydd seiliedig ar dystiolaeth yn y pen draw a oedd o fudd i gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn archwilio olion braint grefyddol ym mywyd cyhoeddus Cymru ac yn nodi gweledigaeth ar gyfer y dyfodol o fwy o gydraddoldeb fyth ar sail crefydd neu gred. Mae'n gwneud argymhellion ynghylch addoli ar y cyd mewn ysgolion, ysgolion ffydd, deddfau priodas, cymorth caplaniaeth/bugeiliol, a seremonïau

cenedlaethol a fydd yn golygu, os cânt eu derbyn, bod Cymru yn croesawu amrywiaeth ei phoblogaeth heddiw yn llawn.

HYDERUS YN EIN HAMRYWIAETH

Rydym ni'n siarad mwy nag un iaith yng Nghymru (cyhoeddir yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg), rydym yn rhagori mewn llawer o gampau (yn enwedig pêl-droed a rygbi), ac rydym yn credu mewn llawer o wahanol bethau pan ddaw i gwestiynau crefyddol ac athronyddol bywyd. Yn yr holl feysydd hyn, er i wahanol raddau, mae ein cymdeithas yn elwa ar bobl sydd â gwahaniaethau yn byw gyda'i gilydd yn heddychlon ac yn gynhyrchiol, ac yn cael eu trin yn gyfartal.

Mae amrywiaeth o ran cred, yn arbennig, wedi bod yn rhywbeth unigryw am Gymru erioed, ac roedd yn rhan o'r ysgogiad ar gyfer datgysylltu tua 100 mlynedd yn ôl. Heddiw, mae Cymru hefyd yn unigryw o fewn y DU oherwydd y mwyafrif llethol o bobl nad ydynt yn uniaethu ag unrhyw grefydd. Datgelodd yr Arolwg diweddaraf o Agweddau Cymdeithasol Prydain yn 2019 bod bron i dair rhan o bump (58%) o oedolion Cymru yn ystyried nad ydynt yn perthyn i unrhyw grefydd o gwbl, cynnydd o tua 20% ers y degawd diwethaf pan ddywedodd ychydig yn llai na hanner (46%) oedolion Cymru yr un peth. Mae'r holl arwyddion yn awgrymu y bydd y duedd hon yn parhau, gan wneud y rhai nad ydynt yn grefyddol yn grŵp arwyddocaol o safbwynt diwylliannol a gwleidyddol yng nghymdeithas Cymru.

Yn y cyfamser, bu cynnydd cymharol fawr yn nifer y rhai sy'n perthyn i grefyddau nad ydynt yn Gristnogol (0.8% yn 2008 i 3.2% yn 2018).[1] O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn dangos bod angen parhaus a thaer am niwtraliaeth grefyddol mewn bywyd cyhoeddus, gan adlewyrchu'r ffaith y dylai'r sefydliadau cymunedol yr ydym yn eu rhannu (ac yn talu amdanynt gyda'n gilydd) mewn cymdeithas luosol, fod yn fannau lle gall pobl sy'n byw mewn llawer o wahanol ffyrdd crefyddol ac anghrefyddol gyfarfod ar delerau cyfartal.

Y newid mewn credoau crefyddol yng Nghymru



1 Data System Wybodaeth Agweddau Cymdeithasol Prydain blynyddoedd arolygu 2008 a 2018. Ar gael yn: *http://www.britsocat.com/BodyTwoCol_rpt.aspx?control=CCESDMarginals&SurveyID=34&Var=RELIGSUM&LangID=0&CountryID=4*

LLWYDDIANNAU SECIWLARIAETH

Bu llawer o lwyddiannau o ganlyniad i Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru 1914 a pholisi cyhoeddus lluosogaethol ac, i raddau helaeth, seciwlar Cymru yn ei sgil.

MAE'R SENEDD EI HUN WEDI EI SEFYDLU AR EGWYDDORION SECIWLAR

O'i chymharu â rhannau eraill o'r DU, mae Cymru yn mwynhau gwahaniad sylweddol rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth. Yn wahanol i Senedd y DU, mae hyn yn amlwg yn Senedd Cymru lle nad oes unrhyw fantais neu anfantais i Aelodau o'r Senedd ar sail eu crefydd neu gred. Ac nid yw crefydd yn dylanwadu ar drafodion ffurfiol busnes seneddol ychwaith.

Er ei bod yn wir dweud bod hanes seciwlariaeth yng Nghymru wedi cychwyn ym 1914, roedd yn broses a gyflymodd yn sylweddol yn sgil datganoli tuag at ddiwedd y ganrif honno. Yn nyddiau cynnar datganoli, fe wnaeth y Prif Weinidog Rhodri Morgan helpu i sefydlu naws yr hyn a oedd yn datblygu i fod yn ffurf o lywodraeth gynhwysol a lluosogaethol unigryw yng Nghymru. Roedd ei ddaliadau egalitaraidd yn amlwg yn yr urddas a'r driniaeth gyfartal gyson yr oedd yn eu rhoi i bobl o wahanol gefndiroedd a chredoau. Trwy wneud hynny, cynorthwyodd ef a'i gyd-arloeswyr o ran democratiaeth Cymru i greu dull Cymreig unigryw o ymgymryd â gwleidyddiaeth, lle mae dyneiddwyr a grwpiau crefyddol ill dau yn cael eu trin yn gyfartal fel partneriaid gan y llywodraeth.

Rhodri Morgan

Roedd yn briodol, pan fu farw Rhodri, bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dewis trefnu angladd wladwriaethol gyntaf Cymru ar sail ei gredoau ei hun – angladd ddyneiddiol a ddarlledwyd ar draws y byd. Yn Lloegr, ar y llaw arall, mae'n ymddangos bod angladdau gwladwriaethol a seremoniol yn Anglicanaidd yn ddieithriad, beth bynnag fo credoau'r rhai y mae galaru ar eu hôl. Bu Morgan yn noddwr Dyneiddwyr Cymru.

Ac eto hyd yn oed cyn i ddatganoli grisialu'r dull cynhwysol hwn yn sefydliadau Cymru ac yng ngweithdrefnau'r Senedd, roedd y cymeriad cynhwysol hwnnw eisoes yn rhan o DNA gwleidyddiaeth Cymru.

Gellir ei weld yn y cyfraniadau eithriadol a wnaed gan wladweinwyr yn Senedd y DU. Ar ddechrau'r hanes 100 mlynedd hwn, roedd y Prif Weinidog Rhyddfrydol David Lloyd George, er enghraifft, yn agnostig o ran ei gredoau a oedd yn uniaethu'n agos â'r gymuned o Anghydffurfwyr yng Nghymru y cafodd ei fagu ynddi; ei Lywodraeth ef wnaeth ddeddfu ar ddatgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru ym 1920.

Yng nghanol yr 20fed ganrif, roedd 'tad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol' Aneurin 'Nye' Bevan, fel Rhodri Morgan, yn ddyneiddiwr ymroddedig a oedd yn ymddwyn yn unol â'i argyhoeddiadau o ran gwleidyddiaeth luosogaethol i Gymru. Dyma eiriau enwog ei wraig Jennie Lee yn dilyn ei farwolaeth:

> Mae Nye yn cysgu drws nesaf. Yn ddiweddarach heddiw bydd yn cael ei gludo adref i Gymru. Yfory bydd yn cael ei amlosgi yn unol â'i safbwyntiau hysbys... Nid oedd erioed yn rhagrithiwr. Ni ddylai unrhyw ffugioldeb ei gyffwrdd pan nad yw ar gael mwyach i amddiffyn ei safbwyntiau. Nid oedd yn rhesymolydd dideimlad. Nid oedd yn beiriant oeraidd, craff. Roedd yn ddyneiddiwr rhagorol â'i grefydd ef oedd caru ei gyd-ddyn a cheisio ei wasanaethu... Roedd yn ymgrymu'n barchus i gyfaill neu ffydd cyfaill, ond nid oedd byth yn esgus bod yn ddim heblaw'r hyn yr oedd, dyneiddiwr.



Mae'n glod i arloeswyr datganoli bod agwedd oddefgar Nye Bevan - parch heb ragrith, rhesymoliaeth wedi'i chyfuno â chydymdeimlad er gwaethaf gwahaniaethau - yn amlwg yn y Senedd sydd ohoni a'r Gymru sydd ohoni. Mae wedi llunio natur gymharol aeddfed a gwresog gwleidyddiaeth Cymru heddiw.

Yn wahanol i Senedd y DU, nid yw Senedd Cymru yn cadw unrhyw leoedd wedi'u sicrhau ar gyfer ffigurau crefyddol, ac mae trafodion y Senedd yn dechrau'n syth heb weddïau. Mae hyn yn gwbl wahanol i'r sefyllfa yn San Steffan, sy'n unigryw ymhlith seneddau sofran democrataidd gan ei bod yn sicrhau 26 o seddi i esgobion Eglwys Loegr yn Nhŷ'r Arglwyddi ac yn cychwyn trafodion seneddol yn y ddwy siambr gyda gweddïau Anglicanaidd beunyddiol. Yn wir, mae hyd yn oed yn galluogi ASau i gadw seddi cyfyngedig ar gyfer y diwrnod i ddod trwy fod yn bresennol yn y gweddïau hyn, y mae eraill wedi nodi sy'n fath o wahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn y rhai nad ydynt yn Gristnogion.

ARWEINYDD BYD O RAN ADDYSG GYNHWYSOL

100 mlynedd ar ôl datgysylltu, mae Cymru yn dal i wneud cynnydd. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd o ran cynnig addysg gynhwysol am grefydd neu gred, yn ogystal â pherthnasoedd a rhywioldeb, yn rhan o'r diwygiadau yn y Cwricwlwm newydd i Gymru sydd i'w gyflwyno cyn hir ac sy'n seiliedig ar hawliau. Mae Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)[2] y Llywodraeth yn ei gwneud hi'n eglur bod yn rhaid i ysgolion ddysgu dyneiddiaeth yn gyfartal ochr yn ochr â chrefyddau mawr y byd, gan adlewyrchu eu hymrwymiadau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.[3]

O dan arweinyddiaeth yr Ysgrifennydd Addysg, Kirsty Williams AS, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ailenwi'r pwnc olaf yn 'Crefydd, Gwerthoedd a Moesau' sy'n llawer iawn mwy eang na'r enw presennol 'Addysg Grefyddol' sydd, yn ôl ei enw, yn eithrio'r rhai nad ydynt yn grefyddol. Yn allweddol, mae'r Bil hefyd yn cynyddu nifer y plant y dysgir y wers iddynt mewn modd gwrthrychol, cydradd, drwy roi'r hawl i rieni y mae eu plant yn mynychu ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir i fynnu gwersi a ddysgir yn unol â'r maes llafur y cytunir arno yn lleol, ac a ddysgir i bob plentyn mewn ysgolion heb gymeriad crefyddol.

Mae'n ymddangos y bydd y cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb newydd hefyd yn dathlu amrywiaeth Cymru, gan gynnwys addysg am faterion LGBT ac sy'n ymwneud â rhywedd.

Mae cymeriad cynhwysol a lluosogaethol gwleidyddiaeth Cymru wedi helpu i'w gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru wneud cynigion ar gyfer math newydd o fframwaith cwricwlwm. Mae'r cwricwlwm newydd yn un sydd â hawliau plant yn ddwfn wrth ei wraidd, ac fe'i cyflwynwyd ar ôl ystyried safbwyntiau'r detholiad ehangaf posibl o arbenigwyr a rhanddeiliaid, gan gynnwys grwpiau crefydd neu gred.

CYNNWYS DYNEIDDWYR AR GYNGHORAU YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL AC AR GYNADLEDDAU MEYSYDD LLAFUR CYTÛN

Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau hawl cyfreithiol dyneiddwyr i fod yn rhan o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a Chynadleddau Maes Llafur Cytûn, cyrff sy'n goruchwylio ac yn gosod meysydd llafur addysg grefyddol lleol.

Yn dilyn newyddion o wrthdaro yn ymwneud â chyngor lleol a oedd yn gwrthod aelodaeth i ddyneiddiwr, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob awdurdod lleol yn 2018 i nodi'r sefyllfa gyfreithiol, gan esbonio ei bod yn ofynnol o dan y gyfraith i gynghorau drin ceisiadau gan ddyneiddwyr yn yr un modd yn union ag y byddent yn trin ceisiadau gan grwpiau crefyddol.[4] Bydd Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn ei gwneud hi'n statudol darparu i ddyneiddwyr ymuno â Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ac â Chynadleddau Meysydd Llafur Cytûn fel aelodau gyda phleidlais lawn.

Roedd hwn yn ymyriad i'w groesawu ac yr oedd ei ddirfawr angen. Er bod llawer o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys dyneiddiwr ochr yn ochr â chynrychiolwyr crefyddol erbyn hyn, mae rhai yn parhau i wrthod aelodaeth i ddyneiddwyr, er gwaethaf y ffaith fod hyn yn anghyfreithlon.

ARWAIN Y DU O RAN RHOI ORGANAU

Yn 2015, cymerodd Cymru gam arloesol a fyddai'n achub bywydau gan ddod y wlad gyntaf yn y DU i symud i 'system feddal o optio allan' o ran rhoi organau, sy'n golygu y tybir bod oedolion yng Nghymru wedi rhoi eu caniatâd i roi organau oni bai eu bod wedi optio allan yn benodol.

Mae gweddill y DU yn dilyn y drefn. Newidiodd Lloegr i system optio allan yn ddiweddarach eleni[5] a bwriad yr Alban yw newid ei chyfraith hithau i ganiatáu system debyg yn 2021. Dynododd Llywodraeth Gogledd Iwerddon ei chefnogaeth i gynllun o'r fath yn ôl yn 2013, ond gwrthodwyd bil aelod preifat ar y newidiadau yn 2016.

2 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2020. Ar gael ar-lein yn: *https://senedd.wales/laid%20documents/pri-ld13294/pri-ld13294%20-w.pdf-*

3 Humanists UK. 'Welsh Government to change law on school RE to include humanism'. 2019. Ar gael yn: *https://humanism.org.uk/2019/01/28/welsh-government-to-change-law-on-school-re-to-include-humanism/*

4 Humanists UK. 'Welsh Government: Humanists must be given right to sit on local RE bodies'. 2018. Ar gael yn: *https://humanism.org.uk/2018/05/08/welsh-government-humanists-must-be-given-right-to-sit-on-local-re-bodies/*

5 Humanists UK. 'Success! Humanists UK celebrates new life-saving organ donation law after more than a decade of campaigning' 'Ar gael yn: *https://humanism.org.uk/2020/05/20/success-humanists-uk-celebrates-new-life-saving-organ-donation-law-after-more-than-a-decade-of-campaigning/*

Y WELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL: CWBLHAU DATGYSYLLTIAD YNG NGHYMRU

Mae'r cynnydd a wnaeth Cymru yn ddiweddar ym maes addysg ac mewn meysydd eraill yn gwbl haeddiannol o gael eu dathlu ac yn destun cenfigen diwygwyr rhyddfrydol eu meddylfryd yng ngweddill y DU. Ac eto ceir llawer o feysydd o hyd lle mae eglwys genedlaethol ddatgysylltiedig Cymru yn parhau i fwynhau dylanwad gormodol yn y byd cyhoeddus, a lle mae hyn yn cael effeithiau negyddol ar gymunedau ledled Cymru.

YSGOLION FFYDD

Daw'r enghraifft orau o hyn o ysgolion ffydd. Mae wyth y cant o ysgolion yng Nghymru heddiw yn cael eu rhedeg gan yr Eglwys yng Nghymru, ac mae ganddynt eithriadau o'r gyfraith sy'n caniatáu iddynt wahaniaethu o ran derbyniadau, cyflogaeth, ac yn y cwricwlwm yn yr hyn a elwid tan nawr yn Addysg Grefyddol.[6] Caiff y rhyddid hwn i wahaniaethu ei waethygu gan yr orddarpariaeth gyffredinol o ysgolion crefyddol yng Nghymru. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan lawer o deuluoedd yng Nghymru ychydig neu ddim dewis a yw'r ysgol y maent yn ei mynychu yn ysgol ffydd ai peidio.

Ond mae'r problemau hyn yn ehangach nag un sefydliad crefyddol. Mae 14% o'r holl ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru yn ysgolion 'â chymeriad crefyddol' – y term cyfreithiol ar gyfer ysgolion ffydd. Fel ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, caniateir iddynt hwythau hefyd lunio eu cwricwlwm eu hunain, i wahaniaethu wrth benodi athrawon ar sail crefydd, a gallant reoli eu derbyniadau eu hunain, gan flaenoriaethu aelodau o'u ffydd eu hunain a rhoi rhai o grefyddau eraill neu rai nad ydynt yn grefyddol ar waelod y rhestr i gael lle os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae hyn yn gwahaniaethu yn erbyn plant ar sail credoau y maent yn rhy ifanc i feddu arnynt yn hyderus drostynt eu hunain, yn lleihau mynediad rhieni lleol i ysgolion lleol, ac yn arwain at gymunedau sydd wedi'u gwahanu ar sail crefydd, ac, fel canlyniad uniongyrchol, ar sail hil ac incwm teuluol.

Cynhaliodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd arolwg o aelod-wledydd yn ddiweddar, i geisio darganfod lle mae ysgolion gwladwriaethol yn gwahaniaethu ar sail crefydd yn eu systemau derbyniadau. Yr unig wledydd a nodwyd ganddo oedd y DU, Iwerddon (lle mae'r Llywodraeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r broblem), Estonia, ac Israel.[7] Ni chanfuwyd bod yr un wlad arall yn gwahaniaethu yn erbyn plant ar sail crefydd yn y modd hwn, fel sy'n gyffredin yng Nghymru a gweddill y DU.

Rydym yn dymuno gweld Cymru yn mabwysiadu system ysgolion gynhwysol a seciwlar, lle gall plant a phobl ifanc o bob cred a chefndir gwahanol ddysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.

Mae Cymru eisoes wedi dangos y gall fod yn arweinydd o fewn y DU ac o fewn Ewrop gyda'i chwricwlwm. Trwy fynd i'r afael â phroblemau gydag ysgolion a esgeuluswyd yn hanesyddol gan Senedd y DU, gall Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag effaith wahaniaethol ysgolion crefyddol a gwneud eu system addysg yn un o'r tecaf yn y byd.

ARGYMHELLIAD: Dylai Cymru gefnogi polisïau derbyniadau, cyflogaeth, a chwricwlwm gwbl gynhwysol, heb unrhyw wahaniaethu ar sail crefydd.

ADDOLI AR Y CYD

Mae gwendidau eraill yn ein cyfraith addysg yn ymwneud ag anghysondebau a etifeddwyd o system addysg Lloegr, ddegawdau cyn i reolaeth dros addysg gael ei datganoli i Gymru. Yn wir, gwrthwynebwyd y ddyletswydd i orfodi addoli ar y cyd ym 1944 gan lawer o ASau Cymru gan gynnwys yr AS Llafur dros Aberafan, William Cove, a ddywedodd 'Am y tro cyntaf yn hanes Prydain mae'r Wladwriaeth yn dod i mewn ac yn datgan y dylai fod gweithred o addoli ar y cyd ym mhob ysgol gynradd ar hyd a lled y wlad, ac yn gwneud hyn fel ateb i'r teimlad niwtral ym Mhrydain o ran crefydd, a seciwlariaeth yr ugeinfed ganrif'.[8]

Y DU, gan gynnwys Cymru, yw'r unig wlad yn y byd i orfodi addoliad Cristnogol beunyddiol mewn ysgolion gwladwriaethol fel mater o drefn, er gwaethaf amrywiaeth eang o wahanol grefyddau a chredoau disgyblion heddiw ac er gwaethaf y ffaith bod 70% o'r rhai 18-24 (y grŵp oedran ieuengaf a gafodd eu harolygu) oed yn dweud nad ydynt yn grefyddol.[9]

6 Llywodraeth Cymru. Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. 2019. Ar gael yn: *https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools*

7 Pauline Musset. OECD Education Working Papers No. 66. School Choice and Equity: Current Policies in OECD Countries and a Literature Review. 2012. Ar gael yn: *https://www.oecd-ilibrary.org/docserver/5k9fq23507vc-en.pdf?expires=1582748442&id=id&accname=guest&checksum=A5A3EB96C0E1F79CFD457BFFBF559037*

8 William Cove AS. Bil Addysg. 12 Mai 1944. Ar gael yn: *https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1944/may/12/education-bill*

9 NatCen. 'Church of England numbers at record low'. 2018. Ar gael yn: *http://www.natcen.ac.uk/news-media/press-releases/2018/september/church-of-england-numbers-at-record-low/*

Er y gall rhieni eithrio eu plant o addoli ar y cyd, ychydig sy'n gwneud hynny gan nad ydynt eisiau tynnu sylw at eu plant neu achosi iddyn nhw golli elfennau gwerthfawr o wasanaethau ysgol megis dathlu gwerthoedd cyffredin a chyfrannu at gymuned ehangach yr ysgol.

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol cydnabyddedig i ddarparu dewis amgen ystyrlon i'r rhai sy'n cael eu heithrio sydd o werth addysgol cyfartal. Y llynedd yn Swydd Rydychen, enillodd dau riant setliad gan ymddiriedolaeth aml-academi mewn perchnogaeth Anglicanaidd sy'n rhedeg ei hysgol â dim cymeriad crefyddol.[10] Er nad yw'n rhwymol, mae hyn yn awgrymu na fyddai'r gyfraith 76 mlwydd oed sy'n gorfodi addoli ar y cyd yn gwrthsefyll her gyfreithiol lawn. Fodd bynnag, nid yw Llywodraethau Cymru na'r DU wedi rhoi sylw i oblygiadau'r achos eto.

Rydym yn credu y dylai'r gyfraith newid fel y gall pob plentyn fwynhau gwasanaethau sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesegol, cymdeithasol, a diwylliannol yr holl ddisgyblion, heb wahaniaethu yn eu herbyn ar sail eu crefydd neu eu credoau anghrefyddol.

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru wedi dangos y llwyddiant sydd i'w gael o fframio'r cwestiynau sylfaenol am addysg yng nghyswllt hawliau plant. Dylid mabwysiadu'r un dull hwn i ddiddymu'r darnau hen ffasiwn o gyfraith addysg a etifeddwyd o'r cyfnod cyn datganoli.

ARGYMHELLIAD: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwasanaethau cynhwysol i bawb yn hytrach nag addoli ar y cyd gorfodol yng Nghymru.

CAPLANIAETH A CHYMORTH BUGEILIOL Y GIG

Rydym yn croesawu twf timau cymorth caplaniaeth a bugeiliol aml-ffydd ac aml-gred yng Nghymru fel tystiolaeth bellach o'r lle dinesig lluosogaethol ac amrywiol a ddatblygwyd gan Gymru yn gynnar yn absenoldeb eglwys sefydledig. Ond mae rhwystrau i gydraddoldeb yn parhau, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn grefyddol. Mae pobl nad ydynt yn grefyddol yng Nghymru yn dal i wynebu gwahaniaethu o ran mynediad at gymorth bugeiliol anghrefyddol mewn ysbytai a charchardai neu mewn cyflogaeth yn rhan o bob tîm gofal bugeiliol.

Yn y cyfamser, mae gofalwyr bugeiliol anghrefyddol o'r fath a hyfforddwyd gan Ddyneiddwyr Cymru yng Nghymru wedi mwynhau lefelau uchel o lwyddiant yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae canllawiau Promoting Excellence in Pastoral, Spiritual and Religious Care GIG Lloegr o 2015 yn gorfodi cymorth a gofal bugeiliol cyfartal i bobl nad ydynt yn grefyddol ar yr un sail ag y darperir caplaniaeth i bobl grefyddol.[11] Ar adeg ysgrifennu hwn, mae GIG Cymru yn adolygu ei ganllawiau ei hun ac rydym yn gobeithio y bydd yn cymryd cam tebyg.

ARGYMHELLIAD: Dylai GIG Cymru orfodi triniaeth gyfartal i bobl nad ydynt yn grefyddol yn ei ganllawiau newydd ar gyfer y GIG ar Ysbrydolrwydd, Iechyd, a Llesiant.

10 Humanists UK. 'School concedes in collective worship legal case - will provide alternative assemblies'. 2019. Ar gael yn: *https://humanism.org.uk/2019/11/20/school-concedes-in-collective-worship-legal-case-will-provide-alternative-assemblies/*

11 Humanists UK, 'New NHS obligation to provide equal pastoral care to non-religious in England', 2015. Ar gael yn: *https://humanism.org.uk/2015/03/06/new-nhs-obligation-provide-equal-pastoral-care-non-religious-england/*



CYDNABYDDIAETH GYFREITHIOL O BRIODASAU DYNEIDDIOL

Seremonïau priodas anghrefyddol yw priodasau dyneiddiol, a gynhelir gan weinydd sy'n ddyneiddiwr. Maent yn achlysuron personol sydd wedi'u teilwra'n llawn i gyfateb i werthoedd a chredoau cryfaf y pâr sy'n priodi. Ar hyn o bryd, mae parau anghrefyddol yng Nghymru a Lloegr yn wynebu gwahaniaethu gan na allant hwy, yn wahanol i'w cymheiriaid crefyddol, gael priodas a gydnabyddir yn gyfreithiol yn unol â'u credoau (anghrefyddol).

Mae Cymru a Lloegr ar ei hôl hi yn hyn o beth. Cydnabyddir priodasau dyneiddiol yn gyfreithiol yng ngweddill y DU, Iwerddon, a rhai o'r tiriogaethau dibynnol ar y Goron. Nid yw cyfraith briodasol wedi ei datganoli i Gymru. Er bod Llywodraeth y DU wedi meddu ar y grym i ddeddfu cydnabyddiaeth gyfreithiol i briodasau dyneiddwyr ers 2013, trwy offeryn statudol, mae wedi methu â gwneud hynny, er gwaethaf adolygiadau lluosog o'r mater, dyfarniad gan Lys Apêl Gogledd Iwerddon yn 2018 ar her hawliau dynol a arweiniodd at y priodasau dyneiddiol cyntaf a gydnabuwyd yn gyfreithiol yno, a dyfarniad diweddar yn yr Uchel Lys yn Lloegr a ganfu fod y gyfraith bresennol yn gwahaniaethu.[12]

Ceir galw enfawr amdanynt ym mhob awdurdodaeth lle maent yn mwynhau cydnabyddiaeth gyfreithiol. Ers 2019 bu mwy o briodasau dyneiddiol na rhai Cristnogol yn yr Alban.[13] At hynny, gan nad oes cydnabyddiaeth gyfreithiol i briodasau dyneiddiol, cafwyd achosion o wahaniaethu pellach yn erbyn dyneiddwyr gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystod cyfnodau clo y coronafeirws. Mae hyn oherwydd y cafodd priodasau nad oes cydnabyddiaeth gyfreithiol iddynt eu gwahardd ar adegau gan reoliadau'r coronafeirws, yn wahanol i briodasau y mae cydnabyddiaeth gyfreithiol iddynt. Mae hynny wedi golygu nad yw dyneiddwyr wedi gallu priodi yn unol â'u credoau, yn wahanol i bobl grefyddol, sy'n gallu cael priodas grefyddol a gydnabyddir yn gyfreithiol. Mae hyn wedi digwydd ddwywaith yng Nghymru yn 2020, er enghraifft yn ystod y cyfnod clo byr.[14]

ARGYMHELLIAD: Dylai Llywodraeth Cymru bwyso i gael datganoli cyfraith briodasau i Gymru fel y gall Cymru gydnabod priodasau dyneiddwyr yn gyfreithiol, neu bwyso ar Lywodraeth y DU i ymestyn cydnabyddiaeth gyfreithiol i briodasau dyneiddwyr yng Nghymru.

12 Humanists UK. 2020. 'High Court rules humanist marriage recognitionrecogniton failure is "'discriminatory"', but stops short of formal breach due to ongoing review.' Ar gael yn: *https://humanism.org.uk/2020/07/31/humanist-marriage-case-outcome/*

13 Humanists UK. 2019. 'Humanist marriages continue to rise in Scotland, new figures show'. Available at: Humanist marriages continue to rise in Scotland, new figures show

14 Humanists UK. 2020. 'Humanist weddings in Wales banned during firebreak lockdown, while religious marriages can continue'. Ar gael yn: *https://humanism.org.uk/2020/10/24/humanist-weddings-in-wales-banned-during-firebreak-lockdown-while-religious-marriages-can-continue/*

SEREMONÏAU CYHOEDDUS CYNHWYSOL

Rydym o'r farn y dylai Seremoni Goffa Genedlaethol Cymru fod yn ddinesig ei chymeriad er mwyn cynrychioli'n llawn a choffau'n briodol yr amrywiaeth o unigolion a wnaeth ymladd a rhoi eu bywydau dros y wlad hon.

Er ein bod yn dathlu'r ffaith mai 2018 oedd y flwyddyn gyntaf y cynrychiolwyd dyneiddwyr yn ffurfiol yn seremoni genedlaethol Cymru, lle siaradodd y cyn Aelod o'r Senedd a noddwr Dyneiddwyr Cymru Lorraine Barrett, mae'r gwasanaeth cenedlaethol yn dal i gael ei drefnu fel seremoni Gristnogol ei chymeriad. Mae hyn er gwaethaf y ffaith nad yw mwyafrif poblogaeth Cymru yn grefyddol a hefyd yn anwybyddu twf crefyddau heblaw Cristnogaeth. Ac aeth pethau am yn ôl 2020 lle, oherwydd y cyfnod clo byr yng Nghymru oherwydd haint covid-19, y cynhaliwyd Seremoni Genedlaethol Cymru ar raddfa lai ac fel gwasanaeth Gristnogol, heb unrhyw gynrychiolaeth arall o blith grwpiau ffydd neu gred.[15]

ARGYMHELLIAD: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol Cymru yn ddinesig ei chymeriad yn hytrach na chrefyddol, i gynnwys pawb sy'n gwasanaethu eu gwlad a phawb sy'n galaru ac yn cofio.

15 Rhaglen y Lleng Prydeinig Brenhinol. Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol Cymru/ The National Service of Remembrance for Wales. 2020. Ar gael yn: *https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Armed-Forces-Covenant/Remembrance-Sunday-2020/Documents/Remembrance%20programme%202020.pdf*

CASGLIAD

Gellir teimlo effaith Deddf yr Eglwys yng Nghymru 1914 hyd heddiw ac mae'n bresennol mewn bywyd beunyddiol yng Nghymru, o ddesgiau ysgol a choridorau ysbytai i lawr y Senedd. Er bod ei llwyddiannau yn niferus ac wedi arwain at genedl fwy hyderus a balch, ceir meysydd lle gellir ymestyn yr egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf i adeiladu ar hanes cryf Cymru o ddathlu lluosogaeth a sicrhau nawr ac yn y dyfodol fod pawb yng Nghymru yn cael eu trin yn gyfartal beth bynnag fo'u crefydd neu gred.

Wales Humanists
Dyneiddwyr Cymru

Humanists UK is the operating name of the British Humanist Association, a registered charity (no. 285987) and a company limited by guarantee registered in England and Wales (no. 228781)